Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Brif Bwyntiau y Warant i Bobl Ifanc:

## Mawrth 2025–Mawrth 2026



# Warant i Bobl Ifanc

**Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.**

Cefnogwyd dros **64,000** o bobl ifanc ers Tachwedd 2021.

Symudodd mwy na **10,000** o bobl ifanc ymlaen i swyddi.

Dechreuodd mwy na **900** eu busnes eu hunain.

Ymgysylltwyd â **18,535** drwy **Twf Swyddi Cymru a Mwy**.

Ymgysylltwyd â **14,125** drwy **Cymunedau am Waith a Mwy**.

Ymgysylltwyd â **795** drwy **ReAct a Mwy**.

Dechreuwyd **30,395** o brentisiaethau.

Cynhaliodd Cymru rowndiau terfynol WorldSkills UK am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2025. Cynrychiolwyd Cymru gan gyfanswm o **122** o gystadleuwyr, a enillodd y nifer trawiadol o **78** o fedalau.

Enillodd Tîm Cymru **2** Fedaliwn Rhagoriaeth yn EuroSkills ym mis Medi 2025.

Cynnydd o bron i **9%** yn ein cystadlaethau sgiliau cynhwysol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae **86.3%** o bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (ffigurau 2024), cyfrannu at y Garreg Filltir Genedlaethol o weld o leiaf **90%** o bobl ifanc 16–24 oed mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn 2050.

* Yn ôl yr amcangyfrifon sydd gennym ar hyn o bryd: **Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2023 a 2024 (dros dro) | LLYW.CYMRU**

# Cyflwyniad

Lansiwyd y **Young Person's Guarantee** (y Warant) ym mis Tachwedd 2021 i sicrhau bod pobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru yn gallu cael gafael yn hawdd ar y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau mewn addysg, dilyn hyfforddiant, dechrau prentisiaeth, dechrau swydd neu lansio eu busnes eu hunain.

Mae'r Warant yn tynnu ynghyd ystod o raglenni megis Twf Swyddi Cymru a Mwy, ReAct a Mwy, a Cymunedau am Waith a Mwy, a gellir cael mynediad atynt drwy Cymru'n Gweithio.

Ers hynny, rydym wedi cefnogi dros **64,000** o bobl ifanc i fanteisio ar raglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Mae dros **10,000** o'r bobl ifanc hynny wedi symud ymlaen i swyddi ac mae dros **900** wedi dechrau eu busnes eu hunain.

Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol, a'r un olaf, yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



# Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid

Nod y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (y Fframwaith) yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (y cyfeirir atynt fel pobl ifanc NEET) neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae'r Fframwaith yn cefnogi pobl ifanc 11 i 18 oed, ac mae'n ategu'r Warant, sy'n berthnasol i bawb rhwng 16 a 24 oed.

Mae gan y Fframwaith brosesau er mwyn dod i wybod pwy yw'r bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET neu sydd eisoes yn NEET, i sicrhau eu bod yn derbyn cymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion ac i fonitro eu datblygiad. Caiff y broses hon ei harwain gan awdurdodau lleol a'u partneriaid gweithredu. Mae'r sefydliadau partner yn cynnwys Gyrfa Cymru, ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a sefydliadau'r trydydd sector. Caiff gweithwyr arweiniol eu dyrannu i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol o ran ymgysylltu, i'w helpu gyda'r broses bontio i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth.



Gan adeiladu ar **ganllawiau ehangach y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid** a gyhoeddwyd yn ystod y tymor Seneddol hwn, aethom ati yn 2025 i gyhoeddi astudiaethau achos pellach ar **Hwb** sy'n arddangos prosesau y mae awdurdodau lleol wedi'u sefydlu o dan y Fframwaith. Mae hyn yn caniatáu i'n rhanddeiliaid weld pa brosesau sydd gan sefydliadau eraill y gellir eu hefelychu neu eu haddasu, gan alluogi sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chryfhau rhwydweithiau cymorth i bobl ifanc.

Rydym wedi parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion **adolygiad Estyn o rôl y gweithiwr arweiniol**, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu proffesiynol. Yn 2025, aethom ati i ddarparu dau ddigwyddiad rhanbarthol ar gyfer gweithwyr arweiniol, a chynhaliwyd trydydd ym mis Chwefror 2026. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr, gan alluogi gweithwyr arweiniol i rannu dulliau gweithredu a chyfnewid arferion gorau. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben, yn enwedig o ran ansawdd cynnwys y sesiynau a'r mewnwelediad a gafwyd i wahanol strwythurau a strategaethau awdurdodau lleol.

Roedd adolygiad Estyn yn cydnabod bod sefydliadau ledled Cymru yn parhau i ddod ar draws nifer o heriau'n ymwneud â rhannu data, a bod angen mwy o eglurder i helpu i gryfhau'r broses o weithredu'r Fframwaith. Er bod gwybodaeth am rannu data eisoes wedi'i chynnwys yng nghanllawiau'r Fframwaith, rydym yn archwilio sut y gallwn ddod â'r holl wybodaeth am rannu data at ei gilydd mewn un lle, gan ddefnyddio astudiaethau achos perthnasol yn ymwneud â'r Fframwaith gan Hwb i dynnu sylw at arferion da ar rannu data.

## Gwerthuso'r Warant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddwyd **gwerthusiad o'r Warant**. Mae yna hefyd **grynodeb i bobl ifanc**.

Roedd y gwerthusiad yn edrych ar sut y sefydlwyd y Warant a sut mae wedi cefnogi pobl ifanc. Edrychodd hefyd ar sut mae'n gweithio ochr yn ochr â'r **Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid**. Fel rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau a gweithdai gyda'n rhanddeiliaid a chyda phobl ifanc o bob cwr o Gymru.

Ar y cyfan, roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol, ac yn achos **40–60% o'r rheini a ddilynodd ein rhaglenni, gwelwyd canlyniadau cadarnhaol** (swydd neu addysg bellach). Canfu'r gwerthusiad fod y Fframwaith a'r Warant yn gwella gallu pobl ifanc, eu cymhelliant a'u mynediad at gyfleoedd, gan eu helpu i symud i'r cam nesaf. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gellid gwneud mwy i gefnogi pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a/neu sy'n wynebu rhwystrau fel salwch ac anableddau.

Mae'n waith manwl, a byddwn yn dysgu o brofiadau'r rhai sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu'r Warant.

## Y data diweddaraf

Mae'r holl gamau a gymerir a'r gwaith a gyflawnir o dan y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn cyfrannu tuag at Garreg Filltir Genedlaethol Llywodraeth Cymru o weld o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

Mae’r amcangyfrifon dros dro diweddaraf yn dangos bod **86.3% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2024**.

Nid ydym yn hunanfodlon am y ffigurau hyn ac rydym yn awyddus i ddysgu mwy am y rhwystrau sy'n cyfrannu at ymddieithrio ac anweithgarwch economaidd ymhlith ein pobl ifanc. Ers mis Ebrill 2025, rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar brosiect peilot **Cynllun Anweithgarwch Economaidd Blaengaredd** i archwilio ffyrdd lleol o leihau anweithgarwch.



## Astudiaeth achos 1: **Ysbrydoliaeth i ddysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) drwy brosiect Blaengaredd**

Cafodd un person ifanc ei gyfeirio at gynllun Blaengaredd gan adran yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot. Roedd gan y person ifanc 20 oed anawsterau dysgu ac roedd yn mynychu ysgol AAA yng Nghastell-nedd Port Talbot cyn gadael i fynd i'r coleg. Ers gadael addysg, roedd wedi cael trafferth dod o hyd i waith. Mynegodd ddiddordeb mewn gweithio mewn ysgol, yn benodol yr ysgol AAA a fynychodd. Aeth tîm Blaengaredd ati i negodi cyfle gwaith hyblyg â thâl yn yr ysgol ym mis Medi. Bydd y tîm yn parhau i weithio gyda'r person ifanc dros yr haf i nodi unrhyw ddysgu sy'n ofynnol a chefnogaeth sydd ei hangen. Byddant hefyd yn parhau â'r gefnogaeth hon tra bydd yn gweithio yn yr ysgol.

Dywedodd y person ifanc ei fod eisiau dangos i ddysgwyr mewn ysgol AAA y gallant gyflawni unrhyw beth ac nad oes rhaid iddynt feddwl bod cyfyngiad ar eu potensial.

## Astudiaeth achos 2: **Prosiect gemau Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent drwy brosiect Blaengaredd**

Mae menter Blaengaredd Llywodraeth Cymru yn ariannu Prosiect Gemau Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent, a ddarperir mewn partneriaeth â GoConnect a'r Rhwydwaith Gemau Cymdeithasol. Mae'r rhaglen arloesol hon yn cynnig sesiynau gemau ar-lein ac wyneb yn wyneb i bobl ifanc 16–25 oed sydd ar hyn o bryd yn economaidd anweithgar. Er bod y prosiect yn gynhwysol ac yn agored i bawb, dynion ifanc yw'r mwyafrif sydd wedi manteisio arno hyd yma. Mae'r fenter wedi'i chynllunio'n benodol i gyrraedd unigolion sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac y mae eu cyfleoedd i ryngweithio yn gyfyngedig, sy'n waeth yn aml oherwydd rhwystrau ychwanegol fel niwroamrywiaeth, is-ddiwylliannau, a diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl gan gynnwys gorbryder ac iselder.

Mae'r prosiect eisoes yn gweld canlyniadau addawol, ac mae unigolion yn nodi lefelau pryder is, mwy o hyder a hunan-werth, a gwell sgiliau cymdeithasol. Drwy ddefnyddio gemau fel cyfrwng ymgysylltu, mae'r rhaglen yn creu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall pobl ifanc feithrin cysylltiadau ystyrlon a datblygu sgiliau meddal hanfodol.

Wrth edrych i'r dyfodol, nod y prosiect yw ehangu ei effaith drwy gynnig llwybrau i wirfoddoli, addysg bellach, a chyflogaeth – o fewn y diwydiant gemau ac ar draws sectorau ehangach. Mae hefyd yn cefnogi pobl ifanc i archwilio beth yw eu dyheadau a nodi llwybrau posibl ar gyfer twf personol a phroffesiynol.

Dyfyniadau gan rai a aeth i'r grŵp gemau:

*"Dw i wrth fy modd yn dod i'r sesiynau gemau i gwrdd â phobl newydd a chael hwyl. Os na fyddwn i'n dod i'r sesiynau, byddwn i'n sownd yn y tŷ ac yn diflasu. Ers gweithio gyda sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid, dw i bellach yn gweithio gyda Barnardo ac yn gwirfoddoli mewn pantri lleol."*

*"Ces fy nghyfeirio i'r sesiwn gan y ganolfan waith. Doeddwn i ddim yn gwneud llawer nac yn siarad â neb. Mae'r sesiynau wedi rhoi cyfleoedd imi gymdeithasu, cwrdd â phobl newydd wyneb yn wyneb ac nid ar-lein. Mae'r sesiynau wedi bod yn ysgogiad imi weithio tuag at fy nodau ar gyfer y dyfodol."*



## Astudiaeth achos 3: **Dechrau newydd a dyfodol disglair drwy brosiect Anweithgarwch Economaidd Blaengaredd**

Ar ôl gwneud penderfyniad sydyn i symud o Reading i Gymru, cafodd un person ifanc ei hun yn chwilio am ddechrau newydd. Rhannodd ei bod wedi wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys diagnosis o sawl afiechyd meddwl, anhwylder deubegynol, anhwylder personoliaeth emosiynol ansefydlog, ac ADHD a hanes o drawma. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, roedd ei hangerdd i helpu eraill a chreu newid er gwell yn parhau'n gryf.

O'r cychwyn cyntaf, mynegodd y person ifanc awydd i gefnogi pobl mewn ffordd holistaidd. Fodd bynnag, yn sgil symud i ardal newydd heb rwydwaith cymorth, roedd yn teimlo wedi'i hynysu ac roedd hyder a hunan-werth yn heriau iddi. Roedd ei nod yn glir: ailgysylltu â gwasanaethau, adeiladu strwythur, ac adennill ymdeimlad o bwrpas.

Mae prosiect Anweithgarwch Economaidd Blaengaredd wedi cefnogi'r person ifanc drwy ei chofrestru ar gwrs gwydnwch. Roedd yr effaith arni i'w gweld yn syth bin. Gadawodd y cwrs wedi'i grymuso, ar ôl dysgu am ddulliau gwerthfawr o sicrhau ei lles ei hun a rhannu ei phrofiadau i helpu eraill.

Gan gydnabod diddordebau'r person ifanc, cyflwynodd prosiect Anweithgarwch Economaidd Blaengaredd hi i brosiect 'Down To Earth', sy'n cyfuno lles yng nghyd-destun byd natur â chyfleoedd i gefnogi eraill. Mae'r person ifanc yn mynd i ddigwyddiad adeiladu cydweithredol, a bydd yn symud ymlaen i Lefel 2 Cefnogi Llesiant mewn Natur – cam allweddol tuag at ei nod o weithio mewn lleoliad cymorth. Mae hi bellach wedi gosod ei bryd ar fod yn Fentor Cefnogi, i helpu pobl sy'n cael trafferth gyda heriau iechyd meddwl a defnyddio ei phrofiad ei hun i wneud gwahaniaeth go iawn.

Y tu hwnt i'r hyfforddiant, mae'r person ifanc wedi cofleidio bywyd cymunedol drwy ddigwyddiadau cymdeithasol sy'n cael eu rhedeg gan brosiect Anweithgarwch Economaidd Blaengaredd, fel gwneud mins peis, creu torchau a nosweithiau ffilm. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'i helpu i deimlo'n gysylltiedig, yn rhan o strwythur ac yn optimistaidd am y dyfodol.

Mae stori'r person ifanc yn dyst i wydnwch, cymuned a phŵer cymorth wedi'i deilwra.

**Mae gan y Warant i Bobl Ifanc ystod o raglenni i gefnogi pobl ifanc...**

# Ystadegau allweddol a chynnydd yn sgil ein rhaglenni

## Twf Swyddi Cymru a Mwy

Twf Swyddi Cymru a Mwy (TSC+) yw ein prif raglen a lansiwyd o dan y Warant. Mae'n darparu pecyn o gymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc 16–19 oed, gan gynnig gweithgareddau hyfforddi a datblygu drwy gyflogaeth, hyfforddiant ffurfiol neu waith gwirfoddol i'w helpu i bontio i'r farchnad lafur.

Mae **18,535** o bobl ifanc wedi bod yn ymwneud â TSC+ ers lansio'r rhaglen ym mis Ebrill 2022. **Yn 2024 i 2025, yn achos 66.8% o'r rhai a adawodd, roedd canlyniad cadarnhaol**, i fyny o 60.3% yn 2023–2024. Bu cynnydd mawr yn y rhai a aeth i mewn i swydd – 1,150 o'r rhai a adawodd yn 2024–2025 o'i gymharu â 775 yn 2023–2024.

Yn achos dysgwyr anabl a/neu'r rhai ag anhawster dysgu, mae cyfradd y canlyniadau cadarnhaol **wedi cynyddu rhwng 2023-2024 a 2024–2025 o 57.9% i 62.3%**. Cynyddodd cyfran y rhaglenni a ddechreuwyd gan ddysgwyr a ddywedodd eu bod yn anabl a/neu fod ganddynt anhawster dysgu o 23.9% yn 2023–2024 i 25.6% yn 2024–2025.

Yn 2024–25 roedd 2.2% o'r rhai a ddechreuodd raglen o grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog, roedd 1.2% o gefndir ethnig Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig, ac roedd 1.1% o gefndir ethnig Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig. Cyfran y dechreuwyr o gefndiroedd ethnig Eraill oedd 2.2%.

Canfu gwerthusiad interim o TSC+, **Pobl Ifanc yn Dathlu Llwyddiant wrth i'r Rhaglen Gyflogaeth Gynnig Mwy na Swydd iddynt**, fod **89% o bobl ifanc wedi dweud bod y gefnogaeth a roddwyd wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau ac wedi helpu i ddatblygu eu gyrfa**. Roeddent hefyd wedi dweud bod eu hanghenion fel unigolion wedi cael eu hystyried, gan olygu bod eu gweithgareddau hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra ar eu cyfer. **Dywedodd 97% o bobl ifanc fod rhaglen TSC+ wedi gwella eu rhagolygon o ran cael gwaith**. Gellir gweld yr adroddiad terfynol yma: **Gwerthusiad ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: adroddiad terfynol**.

Gellir gweld y datganiad ystadegol llawn ar gyfer 2024–25 yma: **Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 | HTML LLYW.CYMRU**.

Mae **rhagor o wybodaeth am Twf Swyddi Cymru+ ar gael ar ein gwe-dudalennau**.



## Astudiaeth achos 4: **Dod o hyd i gyfeiriad i'w ddilyn gyda chymorth TSC+**

Gadawodd person ifanc yr ysgol yn 19 oed, ac nid oedd yn siŵr beth i'w wneud. Astudiodd ei gyrsiau Safon Uwch yng Ngholeg Llandudno a gwnaeth gais i fynd i'r brifysgol cyn penderfynu peidio â mynd yn y diwedd. Mae'n esbonio sut mae TSC+ wedi'i alluogi i gwrdd â chyflogwyr a gwneud cais am swyddi:

*"Roeddwn i ar goll cyn dod o hyd i TSC+. Pan es i i gyfarfod credyd cynhwysol, fe ddywedon nhw wrtha i am raglen TSC+. Fe benderfynais i wneud cais am y cwrs Sgiliau Bywyd, ac fe ddechreuais ym mis Ionawr. Bydd fy nghwrs yn dod i ben ym mis Medi, ac o'r diwedd dw i'n teimlo fy mod ar y trywydd iawn i greu gyrfa i mi fy hun. Dw i eisoes wedi gwneud cais am swyddi. Fel rhan o'r cwrs, fe es i i ffair swyddi. Yno, fe gwrddais â chwmni Excel, asiantaeth recriwtio flaenllaw ym maes addysgu. Maen nhw wedi fy helpu i wneud cais am rôl addysgu gynorthwyol. Roedd y ffair swyddi mor ddefnyddiol, a'r sesiynau a'r gweithdai yn wirioneddol fuddiol.*

*Dw i'n mwynhau ysgrifennu cerddi, a byddwn wrth fy modd yn mynd yn athro Saesneg. Dw i wir yn mwynhau dysgu drwy raglen TSC+. Mae wedi rhoi cyfleoedd o bob math imi ac mae'n fy helpu i archwilio opsiynau gyrfa.*

*Ers dechrau'r cwrs, dw i wedi cwrdd â llawer o ffrindiau newydd o oed tebyg i mi, a dwi i'n bwriadu cadw mewn cysylltiad â nhw wedyn. Mae tîm TSC+ yn wirioneddol gefnogol a chyfeillgar. Maen nhw wedi rhoi cymaint o hyder imi ac wedi gwneud imi deimlo'n rhan o'r gymuned.*

*Dw i wedi dysgu llawer o sgiliau newydd. Mae'r sesiynau ar sgiliau bywyd sy'n cael eu haddysgu ar y cwrs wedi rhoi gwybodaeth a sgiliau newydd imi y galla i eu defnyddio yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli arian, morgeisi a hyd yn oed profion theori gyrru. Dw i wedi dysgu llawer o sgiliau na fyddwn i wedi'u dysgu yn yr ysgol na'r coleg. Fe drefnodd TSC+ i ymwelwyr gwadd ddod i mewn i roi sesiynau blasu inni. Fe gymeron ni ran mewn gweithdai graffiti hyd yn oed. Roeddwn i wrth fy modd gan fy mod yn mwynhau celf a'i fod yn fy ysbrydoli."*



## Astudiaeth achos 5: **Darganfod hyder gyda chymorth TSC+**

Pan ymunodd person ifanc â'r rhaglen gyflogadwyedd am y tro cyntaf, roedd yn dawel ac yn nerfus, yn ansicr o'i allu ac yn betrus i siarad o flaen grŵp o bobl. Roedd tasgau syml fel cyflwyno ei hun neu rannu syniadau yn teimlo fel her. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth amyneddgar mentoriaid ac anogaeth cyfoedion, dechreuodd fod yn fwy agored. Drwy weithdai meithrin hyder, ffug-gyfweliadau a gweithgareddau tîm, dechreuodd gredu yn ei botensial ei hun.

Daeth tro ar fyd pan ddechreuodd y person ifanc ar gyfnod profiad gwaith a oedd yn cyfuno gwaith warws â phrofiad manwerthu. I ddechrau, roedd yr amgylchedd prysur yn dipyn i ddelio ag ef, ond gydag arweiniad ac ymarfer, dysgodd reoli stoc yn effeithlon, cyfathrebu â chwsmeriaid, a gweithio fel rhan o dîm. Sylwodd ei oruchwylwyr ar ei hyder a'i ymroddiad cynyddol.

Erbyn diwedd cyfnod y profiad gwaith, roedd y person ifanc wedi'i drawsnewid o fod yn berson swil i fod yn aelod dibynadwy, egnïol o'r tîm. Talodd ei waith caled ar ei ganfed pan gynigiwyd swydd iddo. Bellach, mae'n siarad â balchder am ba mor bell y mae wedi dod – o fod eisiau bod yn anweledig i ffynnu mewn gweithle byrlymus.

## Cymunedau am Waith a Mwy

Ein gwasanaeth estyn allan a mentora mewn cymunedau ledled Cymru yw Cymunedau am Waith a Mwy (Cymunedau am Waith+), a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae wedi canolbwyntio ei gefnogaeth ar y bobl sydd fwyaf mewn perygl o fod dan anfantais neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur, gan ddarparu gwasanaeth cymorth a mentora arbenigol drwy gyngor ar gyflogaeth i unigolion NEET ac eraill sy'n 16 oed a hŷn sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gael swydd.

Rhwng Ebrill 2022 a Ionawr 2026, mae **14,125** o bobl ifanc wedi ymgysylltu â TSC+, ac mae **6,243** wedi dechrau gweithio gyda chefnogaeth gan TSC+.

Mae **rhagor o wybodaeth am rhagor o wybodaeth am Cymunedau am Waith+ ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

## Astudiaeth achos 6: **Cymorth Cymunedau am Waith a Mwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

Aeth un person ifanc a oedd yn wynebu digartrefedd, heriau iechyd meddwl ac adnoddau cyfyngedig i ddiwrnod recriwtio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i gael cymorth i gael swydd. Cafodd ei gyfeirio at Cymunedau am Waith a Mwy am gymorth wedi'i deilwra gyda chyflogaeth a hyfforddiant. I ddechrau, roedd yn ansicr am gyfeiriad gyrfa ac archwiliodd rolau achub bywyd, diogelwch, manwerthu a gofal cymdeithasol, gan ennill cymwysterau a phrofiad gwirfoddoli ar hyd y ffordd.

Er gwaethaf anawsterau, gan gynnwys cynnig swydd a dynnwyd yn ôl, dangosodd wydnwch a chafodd swydd lawn amser gyda'r British Heart Foundation, gan fanteisio ar gyfle gwirfoddoli a drefnwyd drwy fentoriaid Cymunedau am Waith a Mwy. Drwy waith mentora cyson, sicrhaodd y person ifanc lety parhaol ac annibyniaeth hefyd.



## ReAct a Mwy

Mae ReAct a Mwy (ReAct+) yn darparu cymorth grant ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a chostau cynorthwyol eraill i'r rhai sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur, sy'n 20 oed neu'n hŷn. Mae'r grant yn targedu'r rhai sydd dan rybudd ffurfiol o ddiswyddo, y rhai sydd wedi cael eu diswyddo yn ystod y chwe mis diwethaf, cyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol.

Mae'r rhaglen wedi cefnogi **795** o bobl ifanc ers ei lansio ym mis Mehefin 2022.

Mae **rhagor o wybodaeth am ReAct+ ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

## Cymorth hunangyflogaeth

Mae Syniadau Mawr Cymru yn cefnogi pobl ifanc 25 oed ac iau sy'n wynebu rhwystrau i ddechrau busnes. Rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2025, mae **324,544** o bobl ifanc dan 25 oed wedi cymryd rhan mewn gweithdai a gweminarau menter wedi'u harwain gan **Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru** i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hunangyflogaeth. Mae **4,046** o bobl ifanc wedi datblygu eu syniadau ar gyfer busnes ac wedi cael cyngor busnes ac, o ganlyniad, mae **939** o gleientiaid wedi dechrau eu busnesau drwy Syniadau Mawr Cymru.

Lansiwyd **Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc** ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn darparu cymorth ariannol ychwanegol i bobl ifanc ddi-waith. Rhwng Gorffennaf 2022 a Rhagfyr 2025, cymeradwywyd **796** o grantiau i gefnogi pobl ifanc i ddechrau busnes.

Mae **rhagor o wybodaeth am Syniadau Mawr Cymru a chymorth hunangyflogaeth ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

### Astudiaeth achos 7: **'12 diwrnod o entrepreneuriaeth' Syniadau Mawr Cymru**

Ym mis Rhagfyr, aethom ati i gynnal 12 diwrnod o entrepreneuriaeth ar sianeli Syniadau Mawr Cymru i roi sylw i'r unigolion canlynol a fanteisiodd ar y Warant i Bobl Ifanc:

1. Caitlyn Jones: **Anrhegion personol Three Little Birdies**
2. Khalid Ameen Aslan: **Siop dillad ail-law KB Retro**
3. Claire Hennessy: **Stiwdio Datŵ Inky Pinky**
4. Hannah Worth: **Powlenni bara wedi'i bobi Bowla**
5. Ben Jenkins: **Gwasanaethau trydanol Bull-Ectrics**
6. Sally Pierse: **The Chai Bike sy'n gweini chai masala**
7. Sophie Morgan: **Busnes ewinedd Peaceful Polish**
8. Ellen Firth: **Blodau Firth Flock Flowers**
9. Isabella Jackson: **The Welsh Squirrel Bakery**
10. Evan Richards and Lewis Morgan: **Rhentu cyfarpar chwaraeon dŵr Gower**

## Astudiaeth achos 8: **Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc**

Dwy stori am lwyddiant diweddar sy'n dangos effaith Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc:

11. Abigail Rooke: **Rooke's Pet Portraits**
12. Jack Cain: **Cain's Auto Detailing**

## Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudiaethau, gan ganiatáu i brentis ennill profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd a chael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, gan ennill cyflog ar yr un pryd. Ers lansio'r Warant ym mis Tachwedd 2021, dechreuwyd mwy na **30,395** o brentisiaethau (data dros dro). Mae **dolen at y ffigurau ar gael ar wefan Medr.**

Mae **rhagor o wybodaeth am brentisiaethau ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

## Astudiaeth achos 9: **Prentisiaethau**

13. Stori Megan: **www.llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth/stori-megan**
14. Stori Gabi: **www.llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth/stori-gabi**
15. Stori John: **www.llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth/stori-john**

Gellir dod o hyd i astudiaethau achos fideo ar brentisiaethau drwy **y ddolen YouTube hon.**



## Gwasanaeth Mentora i'r Di-waith

Mae'r Gwasanaeth Mentora i'r Di-waith yn canolbwyntio ar gynnig cymorth hirdymor i bobl ifanc 16 neu'n hŷn, sy'n gwella o broblemau iechyd meddwl a/neu ar ôl camddefnyddio sylweddau, ac sy'n NEET. Mae'n helpu'r rhai mwyaf agored i niwed, a'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, i ailadeiladu eu bywydau a mynd yn ôl i hyfforddiant, addysg neu gyflogaeth.

Rhwng Hydref 2022 a Rhagfyr 2025, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi **3,335** o bobl ifanc 16 i 24 oed. O'r rhain:

- mae **1090** wedi ennill tystysgrif neu gymhwyster sy'n berthnasol i waith
- mae **385** wedi dilyn llwybr addysg
- mae **946** wedi chwilio am swydd
- mae **331** wedi dechrau gweithio
- mae **620** wedi cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli.

Mae **rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Mentora i'r Di-waith ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

## Cymru'n Gweithio

Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cyngor ac arweiniad diduedd am ddim i bobl ifanc 16 oed neu'n hŷn ynghylch gyrfaoedd. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl ifanc i gysylltu â'r rhaglenni uchod fel Twf Swyddi Cymru a Mwy neu ReAct a Mwy.

Rhwng 1 Tachwedd 2021 a 31 Ionawr 2026, cefnogodd Cymru'n Gweithio **44,842** o bobl ifanc 16 i 24 oed. Roedd y cymorth a roddwyd yn cynnwys:

- **138,590** o achosion unigol o ryngweithio, sef cyfanswm o fwy na 74,000 o oriau o gymorth uniongyrchol;
- **70,224** o atgyfeiriadau at gymorth a chyfleoedd pellach.

Mae amrywiaeth o **astudiaethau achos i'w gweld ar wefan Cymru'n Gweithio**.

## Astudiaeth achos 10: **Digwyddiad Prentisiaethau a Chyfleoedd Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru**

Y llynedd, trefnodd timau Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru y Digwyddiad Prentisiaethau a Chyfleoedd, a gynhaliwyd yn eu Canolfan Yrfaoedd yng Nghasnewydd. Roedd amrywiaeth o gyflogwyr a darparwyr yn bresennol, gan gynnwys Specsavers, ONS, Newport Norse, Screen Alliance Wales, Trafnidiaeth Cymru ac Educ8. Roedd 67 aelod o'r cyhoedd yn bresennol i gyd, y mwyafrif yn bobl ifanc a oedd yn chwilio am gyfleoedd. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y cyflogwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Yn dilyn y digwyddiad, cysylltodd rhiant â Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru i rannu'r newyddion gwych bod ei mab wedi sicrhau prentisiaeth gydag ONS. Mynegodd ddiolchgarwch am "helpu ei dau blentyn i mewn i rywbeth ystyrlon" a dywedodd, "ni allai fod wedi digwydd heb gymorth Cymru'n Gweithio".

Rhannodd rhiant arall brofiad tebyg:

*"Fe es i â fy mab i'r digwyddiad prentisiaethau yng Nghasnewydd. Arhosais innau yn y dderbynfa tra aeth e o gwmpas i siarad â'r cyflogwyr. Cafodd ei annog i wneud cais am swyddi yn Specsavers, a chafodd ei alw i mewn am gyfweliad yr wythnos ganlynol. Yn ystod y cyfweliad awr o hyd, fe gafodd y swyd/y brentisiaeth. Fe ddechreuodd ar 5 Mai, ac mae ar ben ei ddigon".*

Mae Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru yn bwriadu trefnu digwyddiadau tebyg yn y Flwyddyn Newydd, yn y gobaith o gefnogi cymaint ag y gallwn i ddod o hyd i'w gyrfa.

## Bydd Bositif

Mae'r wybodaeth am y Warant yn cael ei rhannu drwy ymgyrch farchnata 'Bydd Bositif', sy'n targedu pobl ifanc a rhieni ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o'r Warant, ac yn ceisio atal pobl ifanc rhag sefyllfa o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl cwblhau eu haddysg orfodol.

Drwy gydol cyfnod canlyniadau'r arholiadau, fe wnaethom arddangos **astudiaethau achos** i dynnu sylw at yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael. Mae hyrwyddo'r Warant wedi parhau yn ystod mis Hydref, a bydd yn digwydd tan fis Mawrth 2026.

## Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru

Mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu dyheadau drwy gystadlaethau galwedigaethol sy'n cael eu cynnal yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliodd Cymru **Rowndiau Terfynol WorldSkills UK** am y tro cyntaf. Wrth baratoi, aeth Taith Gyfnewid y Dorch â thorch WorldSkills Cymru drwy golegau a threfi, gan anrhydeddu cystadleuwyr, cyn-fyfyrwyr a'r cymunedau sy'n eu cefnogi.



Cynhaliwyd cystadlaethau mewn pum lleoliad yn y De, gan gwmpasu dros 40 o feysydd sgiliau, o beirianneg a'r digidol i letygarwch, adeiladu a'r diwydiannau creadigol. Cyhoeddwyd y canlyniadau swyddogol yn ystod seremoni fedalau yn ICC Cymru. Perfformiodd Tîm Cymru yn rhagorol. Sicrhaodd gyfanswm o 61 o fedalau, a nhw oedd ar frig tabl cynghrair 10 sefydliad addysgol gorau'r DU. O'r rhain, enillodd Tîm Cymru 13 medal aur, 15 arian, 18 efydd a 15 medal Canmoliaeth Uchel. Roedd y tîm hefyd yn rhagori mewn cystadlaethau Sgiliau Sylfaen, gan sicrhau 15 medal ychwanegol, sy'n dyst i ddull cynhwysol Cymru o ddatblygu sgiliau. Aeth cyfanswm o 76 o gystadleuwyr â medal adref ar draws 31 o feysydd sgiliau felly.

Nod cystadlaethau sgiliau cynhwysol yw rhoi cyfle i bobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol i feincnodi eu sgiliau, meithrin hyder a symud ymlaen o blatfformau lleol i rai cenedlaethol a rhyngwladol. Yn 2025/26, parhau i godi wnaeth y nifer a gymerodd ran yn y cystadlaethau sgiliau cynhwysol. Cynyddodd y cofrestriadau o **323 yn 2024/25 i 352** – cynnydd o **bron i 9%**. Yn ogystal, rydym wedi cynyddu nifer y cystadlaethau sydd ag elfen Gymraeg ei hiaith o 7 i 16, sy'n dangos ein hymrwymiad i ymgorffori'r Gymraeg mewn ystod o feysydd sgiliau.

Mae **rhagor o wybodaeth am Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru ar gael ar ein gwe-dudalennau**.

## Astudiaeth achos 11: **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru**

Uchafbwyntiau, mewnwelediad gan gystadleuwyr ddoe a heddiw, a chyfweliad gyda Chyfarwyddwr y Prosiect, Paul Evans ar bwysigrwydd ysbrydoli rhagoriaeth sgiliau yng Nghymru wrth ddatblygu sgiliau: **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2025**.

## Astudiaeth achos 12: **Rowndiau Terfynol WorldSkills UK**

Dywedodd Robert Jones, enillydd medal aur mewn Cynnal a Chadw Awyrennau:

"Ar ôl ennill Aur yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru ac Arian yn y Gystadleuaeth Genedlaethol, roeddwn i'n benderfynol o anelu am Aur y tro hwn. Mae'r profiad wedi bod yn amhrisiadwy – mae wedi fy helpu i werthuso fy sgiliau, gwella drwy adborth, a gwthio fy hun i'r lefel nesaf. Mae cynrychioli Cymru yn creu cymaint o falchder ynof fi, a fy nod nawr yw parhau i ddatblygu, a gobeithio teithio gyda'r gwaith i arddangos fy sgiliau ledled y byd."

Dywedodd Anisa Abdin, a gafodd ganmoliaeth uchel yn y gystadleuaeth Therapi Harddwch:

"Mae cystadlu yn rowndiau terfynol WorldSkills UK yn rhywbeth nad oeddwn erioed wedi'i ddychmygu. Flwyddyn yn ôl, fyddwn i ddim wedi credu y byddwn i yma. Mae wedi fy ngwthio i anelu'n uwch a chynnal safonau uchel, ac mae wedi fy helpu i dyfu cymaint mewn hyder. Bydd cael nodi'r hyn dw i wedi'i gyflawni ar fy CV yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'm dyfodol. Fy mreuddwyd nawr yw symud ymlaen i Lefel 4 ac, un diwrnod, agor fy salon fy hun – mae'r profiad hwn wedi dangos imi bod unrhyw beth yn bosibl."






OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53851, ISBN digidol 978-1-83745-269-9